

## Gwasanaeth Cofrestru Sir y Fflint

### Telerau ac Amodau ar gyfer Archebu Seremoni

#### Y Seremoni a'r Ffi Archebu

1. *Rwyf wedi cael fy hysbysu ar lafar ac yn ysgrifenedig o'r ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â fy seremoni.*
2. *Rwy'n deall bod ffioedd ar gyfer seremonïau mewn Eiddo a Gymeradwywyd yn cael eu hadolygu gan Gyngor Sir y Fflint yn flynyddol ac y gall ffioedd gynyddu'n flynyddol.*
3. *Rwy'n deall bod ffioedd ar gyfer seremonïau statudol Priodasau Sifil a Phartneriaethau Sifil mewn Swyddfa Gofrestru, ar gyfer pob tystysgrif Briodas a Phartneriaeth Sifil, ac ar gyfer hysbysïadau cyfreithiol o Briodas a Phartneriaeth Sifil, yn cael eu hadolygu gan y Llywodraeth o dro i dro, ac y gall y ffioedd gynyddu ar adegau fel y pennir gan y Llywodraeth.*
4. *Os codir unrhyw ffioedd ar ôl i mi archebu'r seremoni ond cyn i'r seremoni gael ei chynnal, rwy'n deall y byddaf yn atebol am dalu unrhyw gynnydd tebyg yn ogystal â'r swm gwreiddiol fel yr hysbysir yng nghymal 1 uchod.*
5. *Os bydd angen mwy o amser ar gyfer y seremoni, bydd hynny'n amodol ar argaeledd ac yn destun ffi ychwanegol.*
6. *Rwy'n deall bod gennyf gyfnod ymbwyllo o 14 diwrnod ar ôl i mi dalu'r ffi archebu. Ar ôl 14 diwrnod, ni fydd yn bosibl cael ad-daliad o'r blaendal (gan gynnwys unrhyw ffi archebu o flaen llaw / unrhyw gynnydd a/neu ffi ychwanegol).*

#### Oedi'r Seremoni

7. *Cynhelir y seremoni ar yr amser a'r dyddiad a nodir yn llythyr cadarnhau'r archeb.*
8. *Os bydd y seremoni yn cael ei hoedi, oherwydd bod y cwpl neu unrhyw westeion disgwylidig yn hwyr yn cyrraedd (neu unrhyw reswm arall y tu hwnt i reolaeth y lleoliad / Cyngor Sir y Fflint), rwy'n deall y codir tâl arnaf trwy anfoneb ar gyfradd o £46 yr awr, neu ran o awr, am amseroedd aros y Cofrestryddion.*
9. *Rwy'n deall y gall y Cofrestryddion fod wedi ymrwymo'n gyfreithiol i gynnal seremonïau eraill ar yr un diwrnod, a hynny'n bell i ffwrdd, ac y gallai unrhyw oedi mewn seremonïau gael sgil effeithiau difrifol ac andwyol ar gyplau eraill.*
10. *Os na fydd fy seremoni yn cael ei chynnal ar yr amser a gytunwyd ac a archebwyd oherwydd bod y cwpl neu westeion disgwylidig yn hwyr yn cyrraedd, rwy'n deall na fydd modd o bosibl cynnal y seremoni.*
11. *Rwy'n deall y byddai'r staff yn gwneud pob ymdrech i ddychwelyd yn hwyrach ymlaen ar yr un diwrnod i gynnal fy seremoni, ond ni ellir gwarantu hyn.*
12. *Os bydd angen i'r Cofrestryddion ddychwelyd yn hwyrach ymlaen ar yr un diwrnod i gynnal fy seremoni, rwy'n deall y byddwn yn cael anfoneb am amser a chostau teithio ychwanegol y staff.*
13. *Os bydd angen gohirio'r seremoni am unrhyw reswm gan gynnwys: tywydd garw, dim staff ar gael neu unrhyw ddigwyddiad posibl arall, rwy'n cadarnhau fy mod wedi cael fy nghyngori i brynu Yswiriant ar gyfer gohirio / canslo seremoni ac rwy'n cytuno na fydd Cyngor Sir y Fflint yn atebol am y gohiriad.*

#### Seremonïau yn y Swyddfa Gofrestru

14. *Rwy'n deall bod pecynnau bwyd/diod a archebir ar gyfer seremonïau yn y Swyddfa Gofrestru ym Mhlas Llwynegrin yn cynnwys slot o 30 munud i fwyta/yfed cyn neu ar ôl y seremoni.*
15. *Os byddaf yn dewis cynnwys anifail yn fy seremoni bydd gofyn i mi ddarparu tystiolaeth i ddangos fy mod wedi prynu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyn y gall y seremoni gael ei chynnal. Rwy'n cytuno hefyd rhoi enw'r sawl a fydd yn gyfrifol am lanhau unrhyw lanast a achosir gan anifeiliaid ar y diwrnod i'r Cofrestrydd cyn y seremoni. Rwy'n deall y byddaf yn atebol am dalu costau unrhyw waith glanhau neu adfer pellach y tybir sy'n angenrheidiol er mwyn adfer yr ystafell i'w chyflwr gwreiddiol cyn y seremoni.*

#### Cofrestr Priodasau neu Bartneriaethau Sifil

16. *Rwy'n deall mai fi sy'n gyfrifol am sicrhau fy mod yn darparu gwybodaeth gywir i'r Cofrestryddion ar gyfer ychwanegu cofnod at y gofrestr Priodasau / Partneriaethau Sifil.*
17. *Pan fyddaf yn arwyddo'r gofrestr ar y dydd, rwy'n deall y byddaf yn cadarnhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y cofnod Priodas / Partneriaeth Sifil yn gywir, felly mae'n rhaid i mi wirio'r wybodaeth yn ofalus cyn arwyddo.*
18. *Rwy'n deall bod y Llywodraeth, o fis Tachwedd 2017 ymlaen, wedi gosod ffi statudol ar gyfer ystyried unrhyw gywiriadau i gofrestrïadau Priodas / Partneriaeth Sifil, ac os canfyddir unrhyw wallau ar ôl i'r gofrestr gael ei harwyddo, byddaf yn atebol am dalu'r ffi honno (£90 ar hyn o bryd) wrth wneud cais am gywiriad.*

**Wrth dalu'r blaendal perthnasol, rwy'n cadarnhau fy nymuniad i fynd ymlaen â fy archeb ac rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau a'r amodau uchod a fy mod yn cytuno i rwymo'n gyfreithiol i'r telerau hynny.**